# Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Practis Deintyddol Cwmbwrla/Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe

Dyddiad arolygu: 16 Mawrth 2020

Dyddiad cyhoeddi: 17 Mehefin 2020

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu**

**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Llywodraeth Cymru**

**Parc Busnes Rhydycar**

**Merthyr Tudful**

**CF48 1UZ**

Neu

**Ffôn:** **0300 062 8163**

**E-bost:** **hiw@gov.wales**
**Gwefan:** **www.agic.org.uk**

ISBN Digidol 978-1-80038-683-9

© Hawlfraint y Goron 2020

## Cynnwys

1.Yr hyn a wnaethom ........................................................................................ 5

2.Crynodeb o'n harolygiad ................................................................................. 6

3.Yr hyn a nodwyd gennym ................................................................................ 8

Ansawdd profiad y claf ........................................................................................ 9

Darparu gofal diogel ac effeithiol ........................................................................ 14

4.Beth nesaf? ..................................................................................................... 23

5.Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol ....................................................... 25

Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad 26

Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol ............................................................ 27

Atodiad C – Cynllun gwella ................................................................................ 28

**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru**

# Ein diben

**Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal iechyd o ansawdd da**

# Ein gwerthoedd

**Rydym yn rhoi cleifion wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:**

- **Annibynnol**
- **Gwrthrychol**
- **Gofalgar**
- **Cydweithredol**
- **Awdurdodol**

# Ein blaenoriaethau

**Drwy ein gwaith, ein nod yw:**

| | |
|---|---|
| **Rhoi sicrwydd:** | **Cynnig barn annibynnol ar ansawdd y gofal** |
| **Hybu gwelliant:** | **Annog gwelliant drwy lunio adroddiadau a rhannu arfer da** |
| **Dylanwadu ar bolisi a safonau:** | **Defnyddio'r hyn rydym yn ei ganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer** |

# 1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Bractis Deintyddol Cwmbwrla yn 4 Mansel Terrace, Abertawe, SA5 8NN, sy'n rhan o Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe ar 16 Mawrth 2020.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un o arolygwyr AGIC ac adolygwr cymheiriaid deintyddol.

Ystyriodd AGIC i ba raddau yr oedd y gwasanaeth yn bodloni Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, y Safonau Iechyd a Gofal (2015) a deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol eraill.

Ceir rhagor o fanylion am y ffordd rydym yn cynnal arolygiadau deintyddol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

## 2. Crynodeb o'n harolygiad

Yn gyffredinol, gwelsom dystiolaeth fod Practis Deintyddol Cwmbwrla yn darparu gofal diogel ac effeithiol sy'n canolbwyntio ar y claf, a hynny gan staff cyfeillgar, proffesiynol ac ymroddedig.

Roedd y cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC o'r farn bod y gwasanaeth a ddarperir yn y practis yn ardderchog neu'n dda iawn.

Roedd y practis yn nodi adborth gan gleifion er mwyn helpu i fonitro ac asesu ansawdd y gwasanaeth a ddarperir ganddo.

Roedd y staff yn cael eu cefnogi yn eu rolau gan drefniadau rheoli ac arwain da.

Nodwyd gennym fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Roedd y staff yn gwrtais, yn dangos parch ac yn broffesiynol wrth ymdrin â chleifion
- Roedd y cleifion yn derbyn digon o wybodaeth i wneud penderfyniad ar sail gwybodaeth ynglŷn â'u triniaeth
- Roedd gwiriadau wythnosol yn cael eu cynnal a'u dogfennu mewn perthynas â'r cyffuriau a'r cyfarpar brys er mwyn sicrhau eu bod yn gyfredol ac yn ddiogel i'w defnyddio
- Roedd adborth yn cael i gasglu gan gleifion er mwyn helpu i fonitro ac asesu ansawdd y gwasanaeth a ddarperir.
- Roedd yr aelodau o'r staff clinigol wedi'u cofrestru i ymarfer â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ac roeddent wedi derbyn yr hyfforddiant angenrheidiol ar gyfer eu rolau a'u cyfrifoldebau.

Argymhellwn y gallai’r gwasanaeth wella’r canlynol:

- Dylai ramp cludadwy fod ar gael er mwyn helpu cleifion ag anawsterau symudedd i gael mynediad i'r practis
- Rhaid i'r practis greu polisi i egluro'r trefniadau ar gyfer nodi, asesu a rheoli risgiau

- Rhaid sicrhau bod pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant addas ar atal tân
- Rhaid cynnal gwiriad cefndir manylach gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer pob nyrs ddeintyddol.

Ni nodwyd unrhyw feysydd o ddiffyg cydymffurfio yn ystod yr arolygiad hwn, yr oedd angen cymryd camau i'w hunioni ar unwaith.

# 3. Yr hyn a nodwyd gennym

## Cefndir y gwasanaeth

Mae Practis Deintyddol Cwmbwrla yn darparu gwasanaethau i gleifion yn Abertawe a'r cyffiniau. Mae'r practis yn rhan o'r gwasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe.

Mae gan y practis dîm o staff sy'n cynnwys tri deintydd, pum nyrs ddeintyddol, dau dderbynnydd ac un rheolwr practis (sydd hefyd yn nyrs ddeintyddol gofrestredig).

Mae'r practis yn cynnig amrywiaeth o wasanaethau deintyddol cyffredinol preifat ac ar ran y GIG.

## Ansawdd profiad y claf

*Cawsom sgwrs â'r cleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle roedd hynny'n briodol) er mwyn sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.*

Roedd gan y practis brosesau addas ar waith i sicrhau bod y cleifion yn cael profiad cadarnhaol yn y practis.

Dywedodd y cleifion eu bod yn cael eu trin ag urddas a pharch gan y staff a'i bod yn hawdd cael apwyntiad pan oedd ei angen arnynt.

Roedd gan y practis ddulliau da ar waith i gasglu adborth gan gleifion a oedd yn cael eu defnyddio i fonitro ac asesu'r gwasanaeth a ddarperir yn rheolaidd.

Cyn yr arolygiad, gwahoddwyd y practis i ddosbarthu holiaduron AGIC i'r cleifion er mwyn cael eu barn am y gwasanaethau deintyddol a ddarperir. Cwblhawyd cyfanswm o 38 o holiaduron.

Roedd yr adborth gan y cleifion yn gadarnhaol ar y cyfan; dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur eu bod yn teimlo bod y gwasanaeth a ddarperir gan y practis yn ardderchog neu'n dda iawn, Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys y canlynol:

> *"Mae'r deintyddion a phob aelod o'r staff yn y practis bob amser yn gymwynasgar a chyfeillgar"*
>
> *"Mae'r practis yn gyfeillgar iawn ac yn darparu gwasanaeth ardderchog"*
>
> *"Mae'r cyngor bob amser yn cael ei roi mewn ffordd glir a chryno. Mae pawb yn hapus yn y practis, o staff y dderbynfa i'r nyrsys deintyddol a'r deintyddion"*

### Cadw'n iach

#### Hybu, diogelu a gwella iechyd

Roedd amrywiaeth o wybodaeth am iechyd y cyhoedd yn cael ei harddangos ar waliau'r practis, gan gynnwys gwybodaeth am fanteision rhoi'r gorau i smygu ar iechyd y geg a chanllawiau ar bandemig diweddar y Coronafeirws (COVID-

19). Esboniodd rheolwr y practis fod taflenni gwybodaeth i blant ac oedolion ar sut i sicrhau hylendid y geg da fel arfer ar gael yn yr ardal aros er mwyn i'r cleifion eu darllen a'u cadw. Fodd bynnag, roedd y bwrdd iechyd wedi cynghori'r practis yn ddiweddar y dylai gael gwared ar yr holl daflenni gwybodaeth er mwyn helpu i atal achosion o groes-heintio yn ystod y pandemig.

Dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC wrthym fod y tîm deintyddol wedi egluro iddynt sut i gadw eu ceg a'u dannedd yn iach.

## Gofal ag urddas

Yn ystod yr arolygiad, gallem weld bod cleifion yn pryderu am y pandemig diweddar a beth roedd hyn yn ei olygu o ran eu triniaeth ddeintyddol barhaus. Fodd bynnag, gwelsom fod y staff yn egluro'r sefyllfa i gleifion mewn modd pwyllog, cwrtais a phroffesiynol, a dylid eu canmol am hynny.

Yn ddieithriad, dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC wrthym eu bod wedi cael eu trin ag urddas a pharch gan y staff wrth ymweld â'r practis.

Roedd polisi cyfrinachedd ar waith a oedd yn nodi sut y byddai gwybodaeth breifat a phersonol y cleifion yn cael ei diogelu. Gwelsom fod desg y dderbynfa a'r ardal aros yn agos iawn at ei gilydd, ond cadarnhaodd y staff y byddai sgyrsiau preifat â chleifion yn cael eu cynnal yn un o'r deintyddfeydd pe byddai angen. Gwnaethom nodi bod y staff yn cau drws pob deintyddfa yn ystod triniaethau er mwyn cynnal preifatrwydd ac urddas y cleifion.

Gwelsom fod y 9 Egwyddor[1] a ddatblygwyd gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol wedi'u harddangos yn yr ystafell staff a'r ardal aros. Roedd hyn yn helpu i atgoffa'r staff am eu cyfrifoldebau fel gweithwyr deintyddol proffesiynol ac i roi gwybod i'r cleifion am y safonau gofal y dylent eu disgwyl.

---

1 Mae naw egwyddor y Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn nodi'r safonau ymddygiad, perfformiad a moeseg sy'n berthnasol i weithwyr deintyddol proffesiynol yn y Deyrnas Unedig.

## Gwybodaeth i gleifion

Gwelsom fod gwybodaeth am ffioedd i gleifion y GIG a phrisiau triniaethau preifat yn cael eu harddangos ger desg y dderbynfa. Dywedodd y mwyafrif o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC wrthym fod y gost bob amser yn cael ei hegluro iddynt cyn iddynt gael unrhyw driniaeth.

Roedd taflen wybodaeth i gleifion ar gael hefyd. Byddai copïau fel arfer ar gael ar ddesg y dderbynfa ond roedd y practis wedi cael gwared arnynt yn ddiweddar o ganlyniad i'r pandemig. Gwnaethom edrych ar y daflen wybodaeth i gleifion a chopi o ddatganiad o ddiben y practis[2] a gwelsom fod y ddwy ddogfen yn cynnwys yr holl wybodaeth sy'n ofynnol gan y rheoliadau.

Gwelsom fod enwau a rhifau cofrestru'r tîm deintyddol wedi'u harddangos yn ardal aros y practis yn unol â chanllawiau proffesiynol.

## Cyfathrebu'n effeithiol

Dywedodd pob un ond un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC wrthym eu bod yn gallu siarad â'r staff yn eu dewis iaith bob amser.

Gwelsom fod rhywfaint o wybodaeth ar gael i'r cleifion yn Gymraeg a Saesneg. Fodd bynnag, gwnaethom argymell y dylai'r practis wneud mwy i ddiwallu anghenion iaith a chyfathrebu unigol ei gleifion drwy eu gwneud yn ymwybodol bod dogfennaeth ar gael mewn ieithoedd eraill a fformatau hygyrch ar gais.

Yn ystod yr arolygiad, cawsom olwg ar sampl o gofnodion y cleifion er mwyn cadarnhau eu bod yn cael eu cadw'n unol â chanllawiau proffesiynol. Gwelsom gynlluniau triniaeth ysgrifenedig ar gyfer y cleifion a oedd yn cynnwys nodiadau am yr opsiynau triniaeth a drafodwyd yn ystod apwyntiadau. Roedd hyn yn golygu bod y cleifion yn cael gwybodaeth i'w helpu i wneud penderfyniad ar sail gwybodaeth am eu triniaeth. Lle y bo'n gymwys, roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC yn cytuno eu bod wedi cael gwybodaeth glir am yr opsiynau triniaeth a oedd a'r gael

---

2

Yn ôl y gyfraith, mae'n ofynnol i bob darparwr gwasanaeth lunio Datganiad o Ddiben a ddylai gynnwys manylion penodol am y gwasanaeth, pa driniaethau a roddir, i bwy (oedran), gan bwy ac unrhyw gyfarpar a ddefnyddir.

a'u bod wedi cael eu cynnwys mewn penderfyniadau am eu triniaeth cymaint ag yr oeddent am gael eu cynnwys.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r practis hysbysu'r cleifion bod dogfennaeth ar gael mewn ieithoedd eraill a fformatau hygyrch ar gais.

## Gofal amserol

Roedd y mwyafrif o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC yn teimlo ei bod yn hawdd cael apwyntiad pan oedd angen un arnynt. Yn ystod yr arolygiad, gwelsom fod y cleifion yn cael eu trin mewn modd amserol. Dywedodd y staff wrthym fod cleifion yn cael gwybod am unrhyw oedi wrth gyrraedd. Dywedodd y staff wrthym hefyd eu bod yn gallu cyfathrebu drwy wasanaeth negeseua uniongyrchol rhwng y dderbynfa a'r deintyddfeydd, er mwyn sicrhau bod unrhyw oedi'n cael ei gyfleu'n gyflym i'r cleifion.

Mae pob deintydd yn neilltuo amser bob bore a phrynhawn i drin unrhyw gleifion y mae  angen triniaeth frys arnynt yn ystod oriau gwaith. Roedd gwybodaeth am sut i gael gafael ar driniaeth frys y tu allan i oriau wedi'i chynnwys yn y daflen wybodaeth i gleifion ac roedd hefyd yn cael ei harddangos yn y ffenestr ger mynedfa'r practis. Cadarnhaodd y mwyafrif o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC y byddent yn gwybod sut i gael gafael ar y gwasanaeth deintyddol y tu allan i oriau pe byddai ganddynt broblem ddeintyddol frys.

## Gofal unigol

### Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

Dywedodd y mwyafrif o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC wrthym fod y deintydd yn holi am eu hanes meddygol[3] cyn rhoi unrhyw driniaeth.  Wrth fwrw golwg dros gofnodion y cleifion, gwelsom dystiolaeth a oedd yn cadarnhau bod gwiriadau hanes meddygol yn cael eu dogfennu ym mhob apwyntiad yng nghofnodion y cleifion fel sy'n ofynnol yn ôl canllawiau proffesiynol.

---

3

Mae hanes meddygol claf yn helpu'r deintydd i ddeall clefydau posibl neu i nodi meddyginiaeth a allai effeithio ar driniaeth ddeintyddol claf.

Cadarnhaodd y rheolwr practis fod y triniaethau a'r gwasanaethau a gynigir gan y practis yn cyd-fynd â datganiad o ddiben presennol y practis.

### Hawliau pobl

Gwelsom fod polisi cyfle cyfartal, a pholisi cydraddoldeb ac amrywiaeth ar waith yn y practis, er mwyn helpu i sicrhau bod pawb yn cael cynnig yr un cyfleoedd a'r un driniaeth deg yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010. Roedd gan y practis hefyd bolisi yn nodi'r trefniadau ar gyfer derbyn cleifion newydd, fel sy'n ofynnol gan y rheoliadau.

Nid oedd gan y practis faes parcio, ond roedd lle i barcio gerllaw ar strydoedd preswyl lleol. Gwelsom fod gris mawr wrth fynedfa flaen y practis, a allai fod yn broblem i bobl ag anawsterau symudedd. Rydym yn argymell y dylai'r practis ystyried sicrhau bod ramp cludadwy ar gael i gleifion y mae angen help arnynt i gael mynediad i'r practis. Roedd y practis wedi ei leoli ar ddau lawr, ond roedd y deintyddfeydd a chyfleusterau'r cleifion i gyd ar gael ar y llawr gwaelod.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai ramp cludadwy fod ar gael er mwyn helpu cleifion ag anawsterau symudedd gael mynediad i'r practis.

### Gwrando ar adborth a dysgu ohono

Roedd y practis yn casglu adborth gan gleifion am eu profiadau, er mwyn helpu i fonitro ansawdd y gwasanaethau deintyddol a ddarperir. Caiff holiaduron eu dosbarthu i gleifion yn flynyddol, a dywedodd rheolwr y practis wrthym fod cardiau sylwadau wedi'u cynhyrchu yn ddiweddar ac y byddant yn cael eu cadw yn yr ardal aros unwaith y bydd yn ddiogel i wneud hynny.

Mae canlyniadau'r arolwg yn cael eu dadansoddi a'u trafod â'r staff yn ystod cyfarfodydd tîm. Gwelsom boster yn yr ystafell aros a oedd yn rhoi gwybod i'r cleifion am y newidiadau a roddwyd ar waith yn y practis o ganlyniad uniongyrchol i adborth gan gleifion, a oedd yn enghraifft o arfer dda.

Roedd y weithdrefn y dylai'r cleifion ei dilyn i godi cwyn neu bryder gyda'r practis am eu gofal yn cael ei harddangos yn yr ystafell aros. Gwelsom nad oedd y weithdrefn yn cynnwys holl fanylion cyswllt AGIC, fel sy'n

ofynnol gan y rheoliadau. Roedd poster Gweithio i Wella[4] yn cael ei arddangos hefyd er mwyn rhoi gwybod i'r cleifion sy'n cael triniaeth ar ran y GIG y gallant gysylltu â'r bwrdd iechyd os na ellir dod o hyd i ddatrysiad.

Roedd polisi ar wahân ar waith ar gyfer ymdrin â chwynion er mwyn sicrhau y gellid ymdrin ag unrhyw gwynion yn effeithiol ac yn amserol. Gwelsom fod system ar waith i gofnodi unrhyw gwynion ffurfiol neu anffurfiol gan gleifion.

4

Gweithio i Wella yw'r broses ar gyfer rheoli pryderon gan gleifion am ofal a thriniaeth yn GIG Cymru.

## Darparu gofal diogel ac effeithiol

*Ystyriwyd i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.*

Yn gyffredinol, cawsom sicrwydd bod y cleifion yn cael gofal deintyddol diogel ac effeithiol.

Roedd mesurau rheoli heintiau effeithiol ar waith ac roedd y gweithdrefnau ar gyfer glanhau, sterileiddio a storio offerynnau yn cyd-fynd â'r canllawiau arferion gorau diweddaraf.

Roedd y cleifion yn cael gofal unigol sy'n canolbwyntio ar y claf ac roedd cofnodion y cleifion yn gynhwysfawr, yn gywir ac o ansawdd da.

Rhaid cynnal gwiriad cefndir manylach gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer y nyrsys deintyddol yn unol â'r gofynion rheoliadol.

### Gofal diogel

#### Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Roedd yr adeilad yn ymddangos fel petai'n cael ei gynnal a'i gadw'n dda y tu mewn a'r tu allan ac roedd pob ardal yn y practis yn lân, yn daclus ac yn rhydd o beryglon amlwg. Roedd y cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC o'r farn bod y practis deintyddol yn lân.

Roedd y practis wedi cynnal amrywiaeth o asesiadau risg er mwyn sicrhau bod y safle yn addas at y diben a helpu i sicrhau diogelwch a llesiant y staff ac ymwelwyr â'r practis. Fodd bynnag, rhaid i'r practis ddogfennu'r trefniadau hyn mewn polisi er mwyn cydymffurfio â'r rheoliadau.

Roedd polisi iechyd a diogelwch ar waith ac roedd poster cyfraith iechyd a diogelwch yn cael arddangos er mwyn hysbysu'r staff am y ffordd orau o amddiffyn eu hiechyd a'u diogelwch eu hunain yn y gweithle.

Roedd diffoddwyr tân ar gael mewn amrywiol leoliadau yn yr adeilad ac roeddent wedi cael eu gwasanaethu yn ystod y 12 mis diwethaf er mwyn sicrhau eu bod yn gweithio'n briodol. Gwelsom dystiolaeth bod ymarferion tân rheolaidd wedi cael eu cynnal a'u cofnodi mewn cofnodlyfr. Dywedodd rheolwr

y practis wrthym nad oedd y staff yn y practis wedi cael hyfforddiant ar atal tân. Rhaid i'r practis sicrhau bod y staff wedi cael hyfforddiant priodol yn unol â'r rheoliadau.

Roedd arwyddion ar gyfer allanfeydd tân ac arwyddion dim smygu yn cael eu harddangos ym mhob rhan o'r practis er mwyn atgoffa'r staff a'r cleifion am y ddeddfwriaeth mangreoedd di-fwg[5].

Roedd gan y practis bolisi parhad busnes a oedd yn nodi'r cynlluniau wrth gefn a oedd ar waith i sicrhau y gallai'r practis barhau i weithredu'n ddiogel pe byddai argyfwng neu drychineb naturiol. Gwnaethom gynghori'r practis i ddatblygu hyn ymhellach, gan ychwanegu a chadw rhestr o fanylion cyswllt pob aelod o'r staff a chontractwyr busnes hanfodol er mwyn osgoi dryswch petai argyfwng.

Roedd ardaloedd ar gael ym mhob rhan o'r practis i'r staff newid, ac roedd loceri ar gael iddynt storio eu heiddo personol, yn unol â'r rheoliadau.

### Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r practis greu polisi i egluro eu trefniadau er mwyn nodi, asesu a rheoli risgiau sy'n gysylltiedig â gweithredu'r practis yn ddiogel.

Rhaid i'r practis sicrhau bod y staff wedi cael hyfforddiant atal tân priodol.

## Atal a rheoli heintiau

Gwelsom dystiolaeth bod mesurau rheoli heintiau addas ar waith yn y practis mewn perthynas â glanhau a sterileiddio (dihalogi) offer deintyddol yn unol â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05[6]. Yn ddiweddar, roedd y practis wedi sefydlu a dechrau defnyddio ystafell ddihalogi bwrpasol, a oedd

---

5 Rheoliadau Mangreoedd etc. Di-fwg (Cymru) (Diwygio) 2015 – Cafodd deddfwriaeth i wahardd smygu mewn mannau cyhoeddus caeedig ei chyflwyno yn 2007 er mwyn amddiffyn y cyhoedd rhag mwg ail-law.

6 Mae dogfen Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM 01-05) (Diwygiad 1) yn rhoi canllawiau i weithwyr proffesiynol ar ddihalogi mewn practisau gofal sylfaenol a phractisau deintyddol cymunedol.

yn amlwg yn lân ac yn daclus. Roedd cyfarpar diogelu personol ar gael i'r staff ac roeddent yn ei ddefnyddio wrth weithio yn yr ystafell ddihalogi er mwyn helpu i'w hatal rhag dod i gysylltiad â heintiau. Gwnaethom gynghori y dylai'r practis gael gwared ar y plygiau yn y sinciau golchi dwylo yn unol â chanllawiau arferion gorau.

Roedd gan y practis ddulliau ac adnoddau priodol i sicrhau bod offer deintyddol yn cael eu sterileiddio ymlaen llaw yn effeithiol. Roedd awtoclafau wedyn yn cael eu defnyddio ar gyfer y broses sterileiddio awtomatig. Gwelsom fod y staff wedi bod yn cadw cofnodlyfr i ddogfennu'r gwiriadau dyddiol a gwblhawyd er mwyn sicrhau bod yr awtoclafau yn gweithredu'n briodol ac yn bodloni'r gofynion dilysu.

Gwelsom fod y trefniadau hyn, ynghyd â mesurau rheoli heintiau eraill fel hylendid dwylo addas, trefniadau cadw tŷ a glanhau, wedi'u hamlinellu mewn polisi rheoli heintiau.

Roedd gwastraff peryglus (clinigol) o'r deintyddfeydd yn cael ei storio'n ddiogel a gwelsom dystiolaeth bod contract ar waith ar gyfer trosglwyddo a gwaredu gwastraff peryglus o'r fath yn ddiogel.

Cawsom olwg ar gofnodion y staff a gwelsom fod gan bob aelod o'r staff clinigol sy'n gweithio yn y practis statws imiwneiddio derbyniol rhag Hepatitis B. Roedd hyn yn golygu bod camau priodol yn cael eu cymryd i sicrhau bod y cleifion a'r staff yn cael eu hamddiffyn rhag y firws hwn a gludir yn y gwaed.

### Rheoli meddyginiaethau

Gwelsom fod gan y practis bolisi ar waith a oedd yn nodi'r gweithdrefnau a'r trefniadau sydd ar waith yn y practis mewn perthynas ag ymdrin â meddyginiaethau, eu cadw'n ddiogel a'u gwaredu yn unol â'r rheoliadau.

Roedd cyffuriau brys a chyfarpar dadebru brys ar gael yn y practis ac roeddent yn cydymffurfio â chanllawiau'r Cyngor Dadebru (DU)[7]. Roedd gwiriadau wythnosol yn cael eu cynnal a'u dogfennu mewn perthynas â'r cyffuriau a'r cyfarpar brys er mwyn sicrhau eu bod yn gyfredol ac yn ddiogel i'w defnyddio. Roedd cyffuriau a chyfarpar yn cael eu storio mewn ardal gyfyng, ac efallai y byddai'r practis yn dymuno ystyried symud y cyffuriau a'r cyfarpar i ardal lle y gellid eu cadw'n ddiogel o hyd ond lle maent yn fwy hygyrch.

---

7 https://www.resus.org.uk/quality-standards/primary-care-equipment-and-drug-lists/

Gwelsom dystiolaeth bod pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant cyfredol ar ddadebru cardio-anadlol brys (CPR). Roedd dau aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant cymorth cyntaf er mwyn sicrhau y gellir trin unrhyw un yn y practis y mae angen cymorth cyntaf arno yn briodol.

### Diogelu plant ac oedolion sy'n wynebu risg

Roedd gan y practis bolisi diogelu ar waith er mwyn amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed a oedd yn cynnwys gweithdrefnau i'r staff eu dilyn pe byddai unrhyw bryderon ynghylch diogelu unigolion. Roedd y polisi'n cynnwys manylion er mwyn i'r staff roi gwybod i'r asiantaethau diogelu lleol perthnasol am unrhyw bryderon.

Yn ystod yr arolygiad cawsom sgwrs ag aelodau o'r staff ac roeddent yn gallu disgrifio'r gweithdrefnau i'w dilyn pe byddai ganddynt unrhyw bryderon yn ymwneud â diogelu.

Gwelsom fod pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant ar ddiogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed. Cawsom sgwrs â rheolwr y practis am Weithdrefnau Diogelu Cymru 2019[8], a gyflwynwyd yn ddiweddar, a chadarnhaodd ei fod eisoes wedi hysbysu'r staff am eu cyfrifoldebau o dan y gweithdrefnau newydd.

Roedd pob aelod presennol o staff y practis wedi cael gwiriad clirio gan y [9]Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) er mwyn helpu'r gwasanaeth i sicrhau bod pob aelod o'r staff o gymeriad da ac yn addas i weithio mewn practis deintyddol. Fodd bynnag, gwnaethom nodi bod y nyrsys deintyddol i gyd wedi cael gwiriad clirio sylfaenol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd; rhaid i'r practis drefnu bod pob nyrs ddeintyddol yn cael gwiriad clirio manylach gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn unol â'r rheoliadau.

---

8

Mae Gweithdrefnau Diogelu Cymru 2019 yn diweddaru ac yn egluro rolau a chyfrifoldebau ymarferwyr, er mwyn sicrhau eu bod yn diogelu plant ac oedolion yng Nghymru. Mae Gweithdrefnau Diogelu Cymru yn disodli Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru 2008.

9

Mae'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn helpu cyflogwyr i wneud penderfyniadau recriwtio mwy diogel ac atal pobl anaddas rhag gweithio gyda grwpiau sy'n agored i niwed, gan gynnwys plant. Mae'n cymryd lle'r Swyddfa Cofnodion Troseddol a'r Awdurdod Diogelu Annibynnol.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i bob nyrs ddeintyddol gael gwiriad clirio manylach gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

### Dyfeisiau meddygol, offer a systemau diagnostig

Gwnaethom archwilio'r cyfleusterau clinigol yn y practis a gwelsom fod y cyfarpar deintyddol ym mhob deintyddfa wedi cael ei gynnal a'i gadw'n dda a'i fod mewn cyflwr da.

Gwelsom fod gan y practis drefniadau ar waith ar gyfer defnyddio cyfarpar radiograffig (pelydr-X) yn gweithredu'n unol â'r canllawiau a bennwyd gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol a Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Amlygiad Meddygol) (IR(ME)R) 2017. Gwelsom fod y cyfarpar pelydr-X wedi cael ei wasanaethu'n rheolaidd ac roedd ffeil amddiffyn rhag ymbelydredd ar gael a oedd yn cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol mewn perthynas â defnyddio a chynnal a chadw'r cyfarpar pelydr-X yn ddiogel.

Roedd polisi ymbelydredd cynhwysfawr ar waith ac roedd rheolau lleol[10] ar gael a oedd yn nodi'r gweithdrefnau ymarferol i'w dilyn er mwyn atal y staff rhag cael eu hamlygu i ymbelydredd. Gwelsom dystiolaeth hefyd i ddangos bod y tîm deintyddol wedi cael hyfforddiant cyfredol ar ymbelydredd ïoneiddio.

## Gofal effeithiol

### Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Roedd y practis wedi ymrwymo i wella'r gwasanaeth a ddarperir. Roedd amrywiaeth o archwiliadau clinigol wedi cael eu cynnal er mwyn helpu i fonitro a chyfrannu at y broses o ddarparu gofal diogel ac effeithiol i'r cleifion. Gwelsom fod archwiliadau mewn perthynas â rheoli heintiau, cofnodion cleifion, hylendid dwylo a gwastraff clinigol wedi'u cwblhau a bod y practis wedi gweithredu arnynt.

Roedd archwiliad o ansawdd y delweddau radiograffeg a gymerwyd yn y practis hefyd wedi'i gwblhau. Gwnaethom gynghori'r practis y dylai gofnodi'r rhesymau

---

10

Cyfres o reolau a phrotocolau ar gyfer y practis yw rheolau lleol, sy'n helpu staff i ddilyn y rheoliadau ym maes deintyddiaeth.

dros raddio delweddau fel rhai derbyniol neu annerbyniol, er mwyn helpu'r practis i nodi unrhyw themâu cyson ar gyfer ansawdd delwedd wael.

### Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

Roedd gan y practis bolisi rheoli cofnodion ar waith a oedd yn nodi'r gweithdrefnau ar gyfer diogelu gwybodaeth cleifion a rheoli cofnodion cleifion yn ddiogel yn unol â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR).

Roedd cofnodion cleifion ar ffurf electronig ac yn cael eu storio oddi ar y safle. Hefyd, roedd copïau wrth gefn o'u cofnodion yn cael eu gwneud yn rheolaidd er mwyn diogelu ac adfer cofnodion pe byddai rhywbeth yn digwydd i'r practis neu'r system ac na allai'r staff gael gafael arnynt mwyach.

Gwelsom fod yr hen gofnodion cleifion papur yn cael eu cadw'n unol â'r canllawiau cadw perthnasol a'u bod yn cael eu storio'n ddiogel er mwyn atal mynediad anawdurdodedig.

### Cadw cofnodion

Nodwyd gennym yn gynharach yn yr adroddiad ein bod wedi edrych ar sampl o gofnodion cleifion yn ystod yr arolygiad. Gwelsom fod y cofnodion a adolygwyd gennym yn cael eu cynnal a'u cadw i safon uchel. Y rheswm dros hyn yw bod y cofnodion a welsom:

- Yn glir, yn ddarllenadwy ac yn dogfennu trafodaethau a gafwyd â chleifion am gostau, risgiau a manteision yr opsiynau triniaeth a oedd ar gael iddynt
- Yn cynnwys tystiolaeth bod cleifion wedi cydsynio i driniaeth
- Yn dangos bod profion pelydr-X wedi cael eu cynnal yn amserol a bod y cyfiawnhad dros gynnal profion pelydr X ai peidio wedi'i ddogfennu.

Roedd hyn yn dangos bod gofal a thriniaeth yn cael eu hasesu a'u darparu yn unol â safonau a chanllawiau arferion gorau cyfredol.

## Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

*Ystyriwyd y ffordd y mae'r gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn helpu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Ystyriwyd hefyd y ffordd y mae'r gwasanaethau'n adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain yn erbyn y Safonau Iechyd a Gofal.*

Roedd strwythur rheoli ac arwain effeithiol ar waith yn y feddygfa a oedd yn helpu'r staff i gyflawni eu rolau a'u cyfrifoldebau proffesiynol.

Roedd trefniadau llywodraethu da ar waith, gan gynnwys arfarniadau staff blynyddol a chyfarfodydd staff rheolaidd.

Roedd y staff yn cydweithio'n dda ac roeddent wedi cwblhau'r hyfforddiant gofynnol er mwyn sicrhau bod ganddynt y sgiliau a'r wybodaeth glinigol berthnasol.

Roedd polisïau a gweithdrefnau addas ar waith er mwyn helpu i sicrhau diogelwch y staff a'r cleifion, a oedd wedi cael eu hadolygu, fel sy'n ofynnol gan y rheoliadau.

### Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Mae dau brif ddeintydd yn berchen ar y practis ar y cyd o dan gytundeb rhannu treuliau – yr unigolyn cyfrifol enwebedig yw un ohonynt[11] a'r rheolwr cofrestredig enwebedig yw'r llall[12]. Caiff y rheolwr gefnogaeth gan reolwr practis dynodedig a thîm ehangach o staff clinigol ac anghlinigol.

Gwelsom fod gan y practis arweinyddiaeth dda a llinellau atebolrwydd clir. Gwelsom fod y staff yn cydweithio'n dda, ac roedd tystiolaeth o hyn i'w gweld

---

11

Ystyr unigolyn cyfrifol yw cyfarwyddwr, rheolwr, ysgrifennydd neu swyddog arall y sefydliad sy'n gyfrifol am oruchwylio'r ffordd y caiff practis deintyddol preifat ei reoli (Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017).

12

Ystyr rheolwr cofrestredig yw rhywun sydd wedi'i gofrestru o dan Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 fel rheolwr practis deintyddol preifat.

wrth iddynt ryngweithio â'r cleifion, a thrwy eu cydweithrediad a'u hagwedd drwy gydol y broses arolygu.

Roedd set gynhwysfawr o bolisïau a gweithdrefnau ar waith er mwyn sicrhau diogelwch y staff a'r cleifion. Gwelsom fod y rhain wedi cael eu hadolygu'n flynyddol a bod y staff wedi llofnodi i gadarnhau eu bod wedi darllen a deall y cynnwys.

Gwelsom dystiolaeth bod pob aelod o'r staff clinigol wedi'u cofrestru i ymarfer â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ac roedd yswiriant indemnedd priodol ar waith ar gyfer pob un ohonynt. Gwelsom hefyd fod tystysgrifau yn cael eu harddangos a oedd yn dangos bod gan y practis yswiriant atebolrwydd cyhoeddus addas a bod y practis wedi'i gofrestru ag AGIC i ddarparu gwasanaethau deintyddol preifat.

Cadarnhaodd y rheolwyr cofrestredig eu bod yn ymwybodol o'u dyletswyddau o dan y rheoliadau o ran unrhyw hysbysiadau y mae'n rhaid eu hanfon i AGIC, er enghraifft os caiff claf anaf difrifol.

## Staff ac adnoddau

### Y Gweithlu

Roedd trefniadau llywodraethu addas ar waith yn y practis. Roedd gan yr aelodau o'r staff gontractau cyflogaeth a disgrifiadau swydd a oedd yn nodi eu rolau a'u cyfrifoldebau ac roedd y rhain yn cael eu cadw yn ffeiliau'r staff.

Roedd cyfleoedd hyfforddi'n cael eu cynnig i bob aelod o'r staff a gwelsom dystysgrifau ar gyfer y staff a oedd yn dangos eu bod wedi cael hyfforddiant ar amrywiaeth o bynciau a oedd yn berthnasol i'w rolau er mwyn helpu i fodloni eu gofynion o ran datblygiad proffesiynol parhaus (DPP).

Cynhelir cyfarfodydd tîm misol er mwyn galluogi'r staff i drafod unrhyw broblemau, nodi gwersi a ddysgwyd a chodi unrhyw bryderon a allai fod ganddynt. Caiff cofnodion eu cymryd o bob cyfarfod a rhoddir copi i bob aelod o'r staff i'w gadw yn ei ffeil bersonol.

Roedd arfarniadau blynyddol wedi cael eu cynnal ar gyfer pob aelod o'r staff, gan gynnig cyfleoedd i'r staff gael adborth ar eu perfformiad ac adolygu unrhyw gyfleoedd ar gyfer DPP. Rheolwr y practis oedd yn arwain yr arfarniadau gyda'r ddau brif ddeintydd, a gwnaethom drafod y gellid cyflwyno elfen o adolygu gan gymheiriaid yn y dyfodol lle byddai'r prif ddeintyddion yn cynnal arfarniadau gyda'i gilydd er mwyn rhannu profiadau a gwerthuso perfformiad ei gilydd.

Dywedwyd wrthym fod y practis yn llwyddo i sicrhau bod nifer priodol o staff cymwysedig yn gweithio yn y practis bob amser ar hyn o bryd, heb fod angen cyflogi nyrsys deintyddol locwm dros dro. Roedd polisi recriwtio ar waith a oedd yn nodi'r broses i'w dilyn er mwyn recriwtio aelodau newydd o staff yn ddiogel yn ôl yr angen, a disgrifiodd rheolwr y practis raglen sefydlu addas a fyddai’n cael ei dilyn er mwyn helpu aelodau newydd o staff i feithrin dealltwriaeth effeithiol o'u rôl newydd.

Roedd gan y practis bolisi chwythu'r chwiban ar waith a oedd yn galluogi'r staff i godi unrhyw bryderon am arferion gwaith a allai effeithio ar ofal y cleifion. Roedd y polisi'n cynnwys AGIC fel sefydliad y gall staff gysylltu ag ef, a oedd yn enghraifft o arfer dda.

# 4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau ac achosion uniongyrchol o ddiffyg cydymffurfio yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rhoddwyd hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn gofyn i'r gwasanaeth ddweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Os byddwn yn nodi unrhyw achosion difrifol o dorri rheoliadau a phryderon o ran diogelwch a llesiant y cleifion sy'n defnyddio'r gwasanaeth, hysbysir darparwr cofrestredig y gwasanaeth drwy hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio. Mae cyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn fater difrifol ac yn gam cyntaf mewn proses a all arwain at ddwyn achos sifil neu droseddol.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir pryd a sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

## 5. Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol

Fel arfer, rhoddir rhybudd ar gyfer arolygiadau o bractisau deintyddol. Bydd practisau deintyddol yn cael hyd at 12 wythnos o rybudd am arolygiad. Mae hyn er mwyn iddynt allu gwneud trefniadau i sicrhau bod y practis yn rhedeg fel arfer, a bod yr arolygiad yn tarfu cyn lleied â phosibl ar y cleifion.

Rhoddir adborth i gynrychiolwyr y practis ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol ac ar lefel strategol.

Rydym yn cadarnhau i ba raddau y mae practisau deintyddol yn cyrraedd Safonau Iechyd a Gofal 2015 a, lle y darperir deintyddiaeth breifat, i ba raddau y maent yn bodloni Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017. Lle y bo'n briodol, rydym yn ystyried i ba raddau y mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 2017 ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill megis Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol.

Mae’r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn practisau deintyddol.

Ceir manylion pellach am y ffordd y mae AGIC yn arolygu practisau deintyddol a'r GIG ar ein gwefan.

## Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad

Mae’r tabl isod yn crynhoi’r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

| Pryderon uniongyrchol a nodwyd | Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion | Sut y cafodd y pryder ei uwchgyfeirio gan AGIC | Sut y cafodd y pryder ei ddatrys |
|---|---|---|---|
| Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn. | | | |

## Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol

## Gwasanaeth: Practis Deintyddol Cwmbwrla

## Dyddiad arolygu: 16 Mawrth 2020

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch y cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella uniongyrchol sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

| Disgrifiad o'r diffyg cydymffurfio / Camau i'w cymryd | Rheoliad | Cam gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| Ni nodwyd unrhyw faterion brys yn ymwneud â diffyg cydymffurfio yn ystod yr arolygiad hwn. | | | | |

## Atodiad C – Cynllun gwella

## Gwasanaeth: Practis Deintyddol Cwmbwrla

## Dyddiad arolygu: 16 Mawrth 2020

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n nodi'r camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

| Yr hyn sydd angen ei wella | Safon/ Rheoliad | Cam gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| **Ansawdd profiad y claf** | | | | |
| Rhaid i'r practis hysbysu'r cleifion bod dogfennaeth ar gael mewn ieithoedd eraill a fformatau hygyrch ar gais. | Safonau Iechyd a Gofal 2015<br>Safon 3.2 | Mae gwybodaeth am sut i ofyn am ddogfennaeth bellach yn cael ei harddangos yn yr ystafell aros mewn ieithoedd eraill ac mewn gwahanol fformatau hygyrch. | Gloria Morgans<br>Rheolwr y Practis | Cwblhawyd |
| Dylai ramp cludadwy fod ar gael er mwyn helpu cleifion ag anawsterau symudedd gael mynediad i'r practis. | Safonau Iechyd a Gofal 2015<br>Safon 6.2 | Mae ramp cludadwy wedi cael ei archebu er mwyn hwyluso mynediad i'r practis i gleifion ag anawsterau symudedd. | Philip Barriscale<br>Deintydd | Mis |

| Yr hyn sydd angen ei wella | Safon/ Rheoliad | Cam gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| **Darparu gofal diogel ac effeithiol** | | | | |
| Rhaid i'r practis greu polisi i egluro eu trefniadau er mwyn nodi, asesu a rheoli risgiau sy'n gysylltiedig â gweithredu'r practis yn ddiogel. | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017<br>Rheoliad 8(1e) | Lluniwyd polisi asesu risg sy'n egluro manylion ein trefniadau o ran nodi, asesu a rheoli risgiau er mwyn sicrhau amodau gwaith diogel ac iach, a sicrhau bod y practis yn gweithredu'n ddiogel. | Gloria Morgans<br>Rheolwr y Practis | Cwblhawyd |
| Rhaid i'r practis sicrhau bod y staff wedi cael hyfforddiant priodol ar atal tân. | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017<br>Rheoliad 22(4c) | Mae pob aelod o'r staff wedi cwblhau cwrs addysg ymwybyddiaeth Tân.<br>Mae Philip Barriscale hefyd wedi ennill y cymhwyster angenrheidiol i fod yn Swyddog Tân a bydd yn arwain yr holl ymarferion hyfforddi yn y dyfodol. | Philip Barriscale<br>Deintydd | Cwblhawyd |
| | | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Rhaid i bob nyrs ddeintyddol gael gwiriad clirio manylach gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017<br>Rheoliad 18(2b) | Mae pob Nyrs ddeintyddol wedi gwneud cais am wiriad cefndir manylach gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. | Donal Fleming<br>Deintydd | Mis |
| **Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth** | | | | |
| Ni nodwyd unrhyw welliannau ar gyfer yr adran hon. | | | | |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

## Cynrychiolydd y gwasanaeth

**Enw (priflythrennau): Gloria Morgans**

**Teitl swydd: Rheolwr y Practis**

**Dyddiad: 18 Mai 2020**